PROTOCOL ARFER GORAU TPC 2A(a)

GWRANDAWIADAU O BELL DRWY DDEFNYDDIO MEDDALWEDD FIDEOGYNADLEDDA

Cyflwyniad

1. Mae'r Protocol hwn yn ategu'r darpariaethau a geir ym Mhrotocol 2A. Mae'n ceisio darparu canllawiau sylfaenol ynghylch gweithredu gwrandawiadau o bell ac mae'n berthnasol i wrandawiadau ar gyfer pob math o apeliadau o fewn awdurdodaeth Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC).

2. Dylid trin gwrandawiadau a gynhelir yn unol â'r Protocol hwn at bob diben arall fel gwrandawiad yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol.

Deddfwriaeth

- Rheol 25 o Reoliadau Dreth Gyngor (Newid i Restrau ac Apeliadau) 1993 (OS 1993/290)
- Rheol 30 o Reoliadau Trethiant Annomestig (Newid i Restrau ac Apeliadau) (Cymru) 2005 (OS 2005/758)
- Rheol 37 o Reoliadau Tribiwnlys Prisio Cymru 2010 (OS 2010/713)

Cyffredinol

3. Yn unol â darpariaethau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae Tribiwnlys Prisio Cymru (TPC) yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Os oes gennych ddewis iaith, neu os oes arnoch angen cyfieithydd neu arwyddwr, dylech gysylltu â'r TPC o leiaf **bythefnos** cyn y gwrandawiad.

4. Bydd gwrandawiadau o bell drwy gyswllt fideo yn digwydd dim ond os oes cyfleusterau addas ar gael i'r holl bartïon perthnasol a TPC.

5. Bydd TPC yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl i bob parti am ddyddiad unrhyw wrandawiad o bell. Bydd manylion mewngofnodi fideo-gynadledda yn cael eu hanfon i'r partïon dri diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Y meddalwedd cymhwysiad fideo-gynadledda diofyn fydd Zoom. Efallai y defnyddir ‘Microsoft Teams’ ar yr amod bod pob parti'n cytuno i ddefnyddio'r rhaglen hon ac yn hysbysu'r Tribiwnlys o’r cytundeb hwn o leiaf bedwar diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad.

6. Os daw'n amlwg nad yw gwrandawiad pell yn bosibl oherwydd naill ai hyd y gwrandawiad neu nifer y partïon ac/neu dystion i gymryd rhan, bydd y gwrandawiad yn cael ei ohirio. Bydd hyn tan y cyfryw adeg ag y bo modd cynnal gwrandawiad cyhoeddus y gall ei fynychu’n ddiogel.

7. Os bydd parti yn anghytuno â'r cynnig i glywed achos o bell, gallent:

   a. sicrhau bod eu hapêl yn cael ei phenderfynu o dan broses sylwadau ysgrifenedig y Tribiwnlys cyhyd ag y bo pob parti i'r apêl yn cytuno i ddefnyddio'r broses hon;
   b. gofyn i'w hapêl gael ei glywed yn eu habsenoldeb drwy gyfrwng tystiolaeth ysgrifenedig;
   c. ceisio gohiriad i adeg o'r fath ei bod yn bosibl iddynt fynd i wrandawiad yn bersonol yn ddiogel.

8. Dylai partïon sy'n dymuno bwrw ymlaen â gwrandawiad drwy gyswllt fideo sicrhau bod eu hamgylchoedd yn dawel ac nad oes potensial i dynnu sylw (h.y. ffon yn canu neu dorri ar draws gan bersonau eraill).

Cyflwyno dogfennau cyn y gwrandawiad

9. Dylai partïon sy'n bwrw ymlaen â gwrandawiad o bell, lle bo'n bosibl, baratoi bwndel electronig o ddogfennau. Dylai pob bwndel electronig gael ei fynegeio a'i badio a dylid ei ddarparu i'r Clerc a phob parti arall o leiaf **bum diwrnod gwaith** cyn y gwrandawiad.

10. Dim ond dogfennau sy'n hanfodol i'r gwrandawiad o bell y dylai bwndeli electronig eu cynnwys. Gall ffeiliau electronig mawr fod yn araf i'w trosglwyddo ac yn anodd ei defnyddio.

11. Os na allwch ddarparu dogfennau electronig, dylech ddarparu bwndel printiedig. Rhaid i chi sicrhau bod y Tribiwnlys a'r partïon eraill yn cael copïau o'r bwndel o leiaf dau ddiwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Bydd angen pedwar copi ar gyfer y Tribiwnlys (h.y. un bob un i dri aelod y Tribiwnlys ac un i Glerc y Tribiwnlys).

12. Bydd methiant unrhyw barti i ddarparu bwndel electronig neu brintiedig o leiaf bum diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad yn golygu bod yn rhaid i'r parti dan sylw fynychu'r gwrandawiad i esbonio pam na chydymffurfiwyd â'r gofyniad hwn. Yna bydd y Tribiwnlys yn penderfynu a fydd yn bwrw ymlaen â'r gwrandawiad neu'n ei ohirio am gyfnod. Mae hyn yn berthnasol i pan fo'r bwndel yn cyrraedd yn hwyr neu ddim o gwbl.

Recordio fideo o'r gwrandawiad

13. Caiff y gwrandawiad ei recordio gan TPC, ar gyfer defnydd mewnol yn unig. Ni fydd ceisiadau am gopïau o'r gwrandawiad yn cael eu diddanu.